**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith o'r enw Adroddiad ar Wasanaethau Rheilffyrdd a Pherfformiad Trafnidiaeth Cymru 2023-24.**

**Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**Argymhelliad 1.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Rhaid i TrC sicrhau bod ei gynlluniau busnes ac ariannol yn cael eu cyhoeddi cyn blwyddyn ariannol 2025-26.

**Ymateb – Derbyn**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda TrC i wella ein prosesau cynllunio yn barhaus yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd o flynyddoedd blaenorol i sicrhau bod cynlluniau busnes ac ariannol yn cael eu cyhoeddi cyn y flwyddyn ariannol newydd, fel sydd wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 2.**

Mae’r Pwyllgor yn argymell

Rhaid i TrC a Llywodraeth Cymru sicrhau bod cyllideb lawn TrC ar gael i graffu arni ar yr un pryd â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

**Ymateb – Derbyn**

Mae'r llinell amser ar gyfer datblygu cyllideb lawn TrC a'i halinio â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru wedi'i chytuno â TrC ac mae'n dechrau gyda chyllideb amlinellol gyntaf TrC yn cael ei darparu i Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2024. Bydd datblygiadau pellach ac ystyriaeth o'r gyllideb yn cael eu cynnal drwy'r haf ac i'r hydref cyn ei chyhoeddi. Y bwriad yw y bydd y ddwy gyllideb ar gael i graffu arnynt ar yr un pryd.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 3**.

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Rhaid i Lywodraeth Cymru a TrC barhau i symleiddio'r broses o bennu'r gyllideb er mwyn lleihau nifer y cytundebau dwyochrog sydd eu hangen.

**Ymateb – Derbyn**

Yn dilyn pob proses gosod cyllideb mae Llywodraeth Cymru a swyddogion TrC yn nodi cyfleoedd ar y cyd i wella effeithlonrwydd y broses o osod cyllidebau. Bydd adolygiad cynhwysfawr o wariant gan Lywodraeth y DU yn y dyfodol yn cynnig cyfle i ystyried strwythur a hyd y cyllidebau i symleiddio'r broses ymhellach.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 4.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Rhaid i TrC nodi sut mae'n bwriadu rheoli diffygion posibl mewn refeniw tocynnau dros y tair blynedd nesaf.

**Ymateb – Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i TrC barhau i chwilio am gyfleoedd i dyfu ei refeniw blychau arian drwy gynyddu nifer y teithwyr a gwella effeithlonrwydd eu gwasanaethau rheilffordd. Hefyd, rydym yn gweithio'n agos gyda TrC i gynyddu cyfleoedd masnachol i gynyddu refeniw a lleihau'r cymhorthdal gweithredu gofynnol. Rydym wedi gofyn i TrC ymateb yn uniongyrchol i'r pwyllgor ar y camau penodol a gymerwyd i gyflawni hyn.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 5.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC gyhoeddi ei Ddangosyddion Perfformiad Allweddol corfforaethol ar unwaith a darparu diweddariadau rheolaidd.

**Ymateb – Derbyn**

Bydd DPau TrC yn cael eu cyhoeddi yn yr haf a byddant yn cael eu rhannu gyda'r pwyllgor cyn gynted ag y cânt eu cyhoeddi.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 6.**

Mae’r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor o fewn y 6 mis nesaf ar y cynnydd o ran lleihau’r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymhellach a gwella amrywiaeth y gweithlu.

**Ymateb – Derbyn**

Mae hwn yn faes y gofynnodd Llywodraeth Cymru i TrC ganolbwyntio arno yn y llythyr cylch gwaith a gyhoeddwyd y llynedd. Rydym yn disgwyl i TrC fod yn gyflogwr rhagorol ac i adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth Cymru a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn edrych ymlaen at weld cynnydd yn y maes hwn.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 7.**

Mae’r Pwyllgor yn argymell

Rhaid i TrC nodi cynllun clir i fynd i’r afael â’i berfformiad gwael mewn meysydd allweddol fel y nodir ym Mhennod 3 o’r adroddiad hwn. Yn benodol, dylai esbonio'r camau y bydd yn eu cymryd i wella cyfathrebu â theithwyr.

**Ymateb – Derbyn**

Mae TrC wedi gwneud gwelliannau sylweddol ym mherfformiad eu rheilffyrdd yn ystod 2024, gan ddangos bod eu cynlluniau'n gweithio. Rydym yn cydnabod bod profiad teithwyr o berfformiad rheilffyrdd 2023 yn is na’r disgwyliadau, fodd bynnag, roedd TrC yn wynebu heriau enfawr wrth ddarparu eu gwasanaeth o ddydd i ddydd tra'n disodli fflyd gyfan a chyflawni'r buddsoddiad mwyaf erioed mewn seilwaith yng Nghymru. Er bod lle i barhau i wella ymhellach mae'n bwysig cydnabod y cynnydd sydd wedi'i wneud ers cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Rydym yn cytuno bod cyfathrebu â theithwyr yn hynod o bwysig, yn enwedig yn ystod adegau o darfu ar wasanaethau, ac rydym yn gweithio gyda TrC i sicrhau gwelliannau. Rwyf wedi gofyn i TrC nodi eu cynlluniau penodol i fynd i'r afael â hyn o fewn eu hymateb eu hunain i'r pwyllgor.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 8.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC gyhoeddi data perfformiad wythnosol ar gyfer pob gwasanaeth ar rwydwaith y rheilffyrdd mewn ffordd sy'n hygyrch i deithwyr. Dylid cylchredeg y wybodaeth hon yn rheolaidd i Aelodau etholaethol a rhanbarthol perthnasol o'r Senedd.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Gan fod mater gweithredol yw hwn, mater i TrC yw derbyn yr argymhelliad ac yr wyf yn eu gwahodd i wneud.

Mae data perfformiad hygyrch a hawdd ei ddeall yn bwysig i deithwyr, ac rwyf eisoes wedi gofyn i TrC ystyried sut y gallant ddarparu gwybodaeth berthnasol ychwanegol i deithwyr. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda TrC wrth i hyn gael ei ddatblygu, a byddwn yn sicrhau bod aelodau'r Senedd yn cael gwybod am gynnydd.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 9.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC sicrhau, pan fydd gwasanaeth wedi ei derfynu'n gynnar, ei fod yn darparu trafnidiaeth amgen i bob teithiwr. Os na all TrC ddarparu dull arall o deithio, fel gwasanaeth bws yn lle trên, dylai teithwyr gael yr arian angenrheidiol i dalu am ddewis arall.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Gan fod mater gweithredol yw hwn, mater i TrC yw derbyn yr argymhelliad ac yr wyf yn eu gwahodd i wneud.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod sicrhau bod trafnidiaeth amgen ar gael o dan yr amgylchiadau hyn, pan fo'n bosibl, yn hynod bwysig i deithwyr. Mae hwn yn fater gweithredol yn bennaf, ac felly rwyf wedi gofyn i TrC ymateb yn uniongyrchol i'r pwyllgor gyda gwybodaeth ychwanegol am eu cynlluniau.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 10.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Rhaid i TrC addasu ei brosesau ar gyfer rheoli sefyllfaoedd lle caiff gwasanaethau eu terfynu'n gynnar er mwyn ystyried yr effaith wahanol y gallai tywydd y gaeaf ei chael

ar deithwyr. Fel rhan o'r gwaith hwn, dylai TrC hefyd ystyried lleoliad yr orsaf lle caiff y gwasanaeth ei derfynu a pha mor agos ydyw at wasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth amgen.

**Ymateb – Derbyn mewn egwyddor**

Gan fod mater gweithredol yw hwn, mater i TrC yw derbyn yr argymhelliad ac yr wyf yn eu gwahodd i wneud.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod yn rhaid i gynlluniau ar gyfer rheoli terfynu gwasanaethau yn gynnar ystyried amrywiaeth eang o ffactorau, gan gynnwys argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau amgen. Fodd bynnag, mae hwn yn fater gweithredol yn bennaf, ac felly rwyf wedi gofyn i TrC ymateb yn uniongyrchol i'r pwyllgor gyda gwybodaeth ychwanegol am eu cynlluniau.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 11.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o fewn y 6 mis nesaf ar gynnydd tuag at y targed o 95% o deithiau ar drenau newydd erbyn diwedd 2024

**Ymateb – Derbyn**

Mae TrC eisoes wedi derbyn tua 70% o'r fflyd newydd, gyda mwy o drenau yn cael eu darparu drwy'r amser. Mae rhai o'r rhain mewn gwasanaeth dyddiol ac mae rhai yn cael eu defnyddio ar gyfer hyfforddiant gyrwyr. Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa bresennol, a byddaf yn gofyn i TrC ysgrifennu at y Pwyllgor gyda diweddariad pellach o fewn y 6 mis nesaf.

| **Sefyllfa Bresennol (11 Mehefin 2024)** | **Dosbarth y Tren** | **Darparwyd** | **Aros** | **Cyfanswm** | **Cyfanswm a ddarparwyd** | **Mewn gwasanaeth** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 230 | 5 | 0 | 5 | 100% | 2 |
| | 231 | 11 | 0 | 11 | 100% | 8 |
| | 756 | 24 | 0 | 24 | 100% | 0 |
| | 398 | 14 | 22 | 36 | 39% | 0 |
| | 197 | 51 | 26 | 77 | 66% | 43 |
| | Marc 4 | 7 | 0 | 7 | 100% | 4 |
| **Cyfanswm newydd i Gymru** | | 112 | 49 | 160 | 70% | 57 |

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 12.**

Mae’r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC adrodd yn ôl i’r Pwyllgor hwn ar ganlyniad ei adolygiad o wasanaethau rheilffyrdd ac amserlenni o fewn y chwe mis nesaf.

**Ymateb – Derbyn**

Ar hyn o bryd mae TrC yn ystyried yr adborth a dderbyniwyd ar eu hadolygiad o amserlenni. Byddaf yn sicrhau bod y pwyllgor, yn ogystal ag aelodau'r Senedd, yn cael gwybod am unrhyw newidiadau a wnaed i'r cynlluniau presennol.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 13.**

Mae’r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC weithio gyda grwpiau teithwyr rheilffyrdd i gyfleu canlyniadau’r adolygiad o wasanaethau rheilffyrdd i deithwyr.

**Ymateb – Derbyn**

Mae TrC wedi gweithio'n agos gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys grwpiau rheilffyrdd teithwyr, i gyfleu'r newidiadau arfaethedig o'r Adolygiad Amserlenni ac i gasglu adborth gwerthfawr. Mae'r adborth hwn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd, ac rwyf wedi gofyn i TrC sicrhau bod grwpiau teithwyr yn cael eu hysbysu'n llawn am y penderfyniadau terfynol ar ôl eu gwneud.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 14.**

Mae’r Pwyllgor yn argymell

Rhaid i TrC wella ei ddarpariaeth gwasanaethau o ran digwyddiadau mawr. Dylai adrodd yn ôl i’r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar y camau y mae wedi’u cymryd yn hyn o beth.

**Ymateb – Derbyn**

Mae Trafnidiaeth Cymru, gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol eraill a darparwyr trafnidiaeth, wedi gwella y gwaith cynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer digwyddiadau mawr yn sylweddol. Bellach mae cynlluniau clir y cytunwyd arnynt ar gyfer digwyddiadau mawr, sy'n cynnwys mwy o gapasiti, gwasanaethau ychwanegol, a chyfathrebu gwell â chwsmeriaid. Gwelwyd effaith y gwelliannau hyn mewn digwyddiadau llwyddiannus diweddar yn y brifddinas gan gynnwys y Chwe Gwlad, y gemau cymhwyso Ewropeaidd a chyngerdd Bruce Springsteen.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 15.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru a TrC adolygu'r cynllun Ad-dalu Oedi yn barhaus i sicrhau ei fod yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng tegwch i deithwyr a realiti gweithredu rhwydwaith trafnidiaeth rheilffyrdd

**Ymateb – Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda TrC i adolygu'r holl fecanweithiau ar gyfer iawndal i deithwyr i sicrhau eu bod yn briodol a tharo'r cydbwysedd cywir rhwng tegwch i deithwyr a'r heriau o weithredu rhwydwaith rheilffyrdd prysur.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 16.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o fanylion am y prosiectau gwella seilwaith sy'n cael eu hystyried gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig fel rhan o'r 'biblinell' o brosiectau i'w dwyn ymlaen os bydd cyllid ar gael.

**Ymateb – Derbyn**

Byddai Llywodraeth Cymru yn falch o roi rhagor o fanylion i'r pwyllgor am ei blaenoriaethau ar gyfer gwella seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru a bydd yn ysgrifennu at y pwyllgor yn darparu copi o Biblinell Blaenoriaethau Seilwaith Bwrdd Rheilffyrdd Cymru ar y Cyd cyn gynted â phosibl, ond o fewn y chwe mis nesaf.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 17.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai Llywodraeth Cymru a TrC nodi eu safbwynt ar y cynigion ym Mil drafft Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ddiwygio'r rheilffyrdd, a gyhoeddwyd yn ddiweddar

**Ymateb – Derbyn**

Yn ddiweddar, rhoddais dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i'r Pwyllgor Dethol ar Drafnidiaeth fel rhan o'u gwaith craffu cyn deddfu. Mae'r ddwy gyfres o dystiolaeth wedi cael eu cyhoeddi fel rhan o Bwyllgor Dethol Trafnidiaeth Senedd y DU yma: Scrutiny of the draft Rail Reform Bill - Committees - UK Parliament

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 18.**

Mae’r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC egluro pa gamau mae’n eu cymryd i wireddu’r arbedion o brosiect metro De Cymru a sut y nodwyd yr arbedion hyn.

**Ymateb – Derbyn**

Mae ein buddsoddiad yn Llinellau Craidd y Cymoedd yn trawsnewid y ffordd y mae pobl yn teithio, gwella cysylltedd a chreu cyfle i bobl ledled y rhanbarth. Mae'r rhaglen yn ei chamau olaf ac mae'n dechrau darparu gwasanaeth metro cyrraedd a mynd o'r safon uchaf. Wrth i'r rhaglen ddirwyn i ben, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda TrC i nodi a sicrhau unrhyw ostyngiad mewn costau, a bod y gost i drethdalwyr a theithwyr yn cael ei chadw mor isel â phosibl. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn ymateb yn uniongyrchol i'r pwyllgor mewn perthynas â mesurau a gymerir i leihau costau.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 19.**

Mae’r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC roi diweddariad o fewn y chwe mis nesaf ar ddatblygiad y cynllun cyflawni cenedlaethol ar gyfer teithio llesol.

**Ymateb – Derbyn**

Cyhoeddwyd y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol ar 14 Mawrth a byddwn yn adrodd yn flynyddol i'r Bwrdd Teithio Llesol ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu ac fe gyhoeddir yr wybodaeth hon. Bydd hyn yn cynnwys y camau gweithredu yn y Cynllun Cyflawni Teithio Llesol y mae TrC yn bartner arweiniol iddo.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 20.**

Mae’r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC roi diweddariad o fewn chwe mis ar gynnydd mewn perthynas â’i waith gyda’r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a’r Gronfa Teithio Llesol.

**Ymateb – Derbyn**

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymarfer moderneiddio grantiau trafnidiaeth, sy'n datblygu opsiynau ar gyfer dyrannu cyllid trafnidiaeth yn y dyfodol i awdurdodau lleol a Chydbwyllgorau Corfforedig. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys y Gronfa Teithio Llesol.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**

**Argymhelliad 21.**

Mae'r Pwyllgor yn argymell

Dylai TrC nodi sut mae'n bwriadu sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti ac arbenigedd I chwarae rhan arweiniol yn y newid i'r model masnachfreinio bysiau.

**Ymateb – Derbyn**

Gwnaethom gynnwys atodiad penodol ar rôl TrC wrth gyflwyno masnachfreinio bysiau yn eu llythyr cylch gwaith diwethaf (Cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru 2.0 – Datblygu diwylliant teithio aml-ddull a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni rhwydwaith trafnidiaeth integredig (llyw.cymru), a bwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod gan TrC yr adnoddau, y sgiliau a'r gallu cywir i fasnachfreinio bysiau a sicrhau bod TrC yn gallu gweithio mewn ffordd wirioneddol amlfoddol i ddod â sgiliau ac arbenigedd i'w ddefnyddio ar draws system drafnidiaeth integredig gyfan.

**Goblygiadau Ariannol – Dim**